

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Chwefror, 2024.

1.	Presennol:	John Jones (Cadeirydd), Jess Williams (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg); Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd);
2.	Ymddiheuriadau:	Iddon Edwards (Penmorfa); Michael Jones (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin)
3.	Ddim yn bresennol:	Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)
4.	Datgan Buddiant:	Eitem Rhif 10: MLW, RJ, RP, GE, HP a JW (roeddent wedi eu hesgusodi i'r eitem dyrannu arian - bu iddynt adael yr ystafell)
5.	Cywirdeb y cyn-gofnodion :	HP yn cynnig a CW yn eilio.
6.	Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:	<p><u>Bedd Angen Sylw - Mynwent Bethel:</u> Mae'r teulu yn ymwneud â'r mater ac am roi sylw i'r bedd.</p> <p><u>Draeniau Prenteg:</u> Adrian Williams o Gyngor Gwynedd wedi gwneud cyswllt hefo GE ac am gael cyfarfod safle.</p> <p><u>Mater Traffig Prenteg:</u> Dal i ddisgwyl cyswllt gan Iwan ap Trefor o Gyngor Gwynedd parthed cael gwneud y ffordd ger Teras Tan y Bryn yn unffordd.</p> <p><u>Cyffordd Glandwyfach:</u> Derbyniwyd ymateb gan Merfyn Morris o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn dweud ei fod wedi trafod y mater gyda'i gydweithwyr yn yr Uned Trafnidiaeth ynghyd a Swyddogion o Lywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa'r gyffordd fel y mae yn cydymffurfio a'r safonau cenedlaethol presennol. Er hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal Astudiaeth Dichonoldeb o'r gyffordd gyda'r nod o weld os gellir gwella'r dyluniad. Bydd yr astudiaeth hon yn cael ei chynnal yn y flwyddyn ariannol newydd. Mi ddaw yn ôl atom gyda'r canlyniad mor fuan â phosib.</p>
7.	Mynwentydd:	Dim i'w adrodd

		Ymunodd JW a'r cyfarfod.
8.	Llwybrau Cyhoeddus:	Adroddwyd fod y camfeydd ar hyd y llwybr fyny Craig Garn angen sylw. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.
9.	Adroddiad Pentrefi:	<p><u>Pentrefelin:</u> Adroddwyd bod y ffordd gefn o ganol y pentref i Penmorfa angen sylw. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.</p> <p>Adroddwyd fod yr arwydd 20mya yn edrych fel petai yng nghanol y gofgolofn wrth i chi ddod drwy'r pentref o gyfeiriad Criccieth. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i weld os yw'n bosib cael ei symud.</p> <p>Soniwyd bod cwyn wedi'i dderbyn bod dipyn o Goed Derw ac Onnen wedi cael eu marcio rhwng Ty'n Llech a Phont Faen. Argymhellwyd i'r cwynwr gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru neu Stad y Wern yn uniongyrchol.</p> <p><u>Garndolbenmaen:</u> Soniwyd am yr amserlen bws newydd. Adroddwyd nad oes gwasanaeth ar ôl 5yh a dim byd o gwbl ar y Sul. Adroddwyd fod Mabon ap Gwynfor wedi codi'r mater yn y Senedd. Nid oedd unrhyw ymgynghoriad parthed y gwasanaeth bws newydd. Adroddwyd mai'r unig ymgynghoriad ddigwyddodd oedd rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd a Thrafnidiaeth Cymru. Nodwyd fod cael gwared â gwasanaethau bws yng nghefn gwlad Cymru yn mynd yn erbyn egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. SCH yn ymwneud â'r mater yma.</p> <p>Diolchwyd i MLW ac i Bryn Jones o Dalar, Garndolbenmaen am siarad mor angerddol ar y newyddion am y mater sydd yn cael cryn effaith ar gymuned Garndolbenmaen a Penmorfa.</p> <p>Adroddwyd fod cwynion pellach wedi'i dderbyn am bobl yn parcio eu ceir yn yr arosfa bws. Soniodd y Clerc ei bod wedi gwneud cyswllt gydag Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd ac maent wedi cytuno i beintio "bus stop" ar y ffordd pan fyddent yn gosod llochesi bws newydd.</p> <p>Adroddwyd nad yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw wrthwynebiad gan y cyhoedd i osod llinell ddwbl yn y pentref. Y cam nesaf yw rhoi hysbyseb yn y wasg.</p> <p><u>Golan:</u> Adroddwyd nad yw'r sedd yn y lloches bws wedi'i drwsio. JJ i osod tâp i dynnu sylw'r cyhoedd ei fod yn beryg a</p>

		<p>chlerc i gysylltu gyda'r contractwr eto i weld pa bryd gaiff y gwaith ei wneud.</p> <p><u>Prenteg:</u> Adroddwyd fod yna ordyfiant ar ochr y ffordd rhwng Bryn Ffynnon a Thŷ Newydd. Cyngorydd J.J am edrych mewn i'r mater yma.</p> <p><u>Bryncir:</u> Soniwyd am y llifogydd ddydd Llun y 29ain o Ionawr. Adroddwyd y mater i'r Asiantaeth Cefnffyrdd. Mae'n edrych yn debyg bod y cwlfer sydd yn rhedeg o dan y ffordd ger mynediad y chwarel yn ddiffygiol. Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Gefnffyrdd.</p>
10.	Rhoddion Ariannol	<p>Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ambiwylans Awyr - £250.00 • Canolfan Gymdeithasol Golan - £300.00 • Cyfeillion Ysgol y Gorlan - £300.00 • Cylch Meithrin y Gorlan Fach - £300.00 • Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch - £300.00 • Neuadd a Chae Chwarae Garndolbenmaen - £300.00 • Neuadd Prenteg - £300.00 • Theatr Bara Caws - £250.00 • Urdd Eryri - £300.00 • Canolfan Pentrefelin - £300.00 • Neuadd Penmorfa - £300.00 • CFFI Dyffryn Madog - £300.00 <p>Gadawodd y Cyngorwyr oedd wedi datgan buddiant yr ystafell wrth drafod yr eitem yma.</p> <p>Roedd pawb yn gytûn wrth ddyrannu'r arian.</p>
11.	Archwilydd Mewnol	Penderfynwyd penodi Hughes-Jones Dyson i fod yn archwilydd mewnol. Pawb yn gytûn.
12.	Tendr Gwaith Mynwentydd a Llwybrau Cyhoeddus	Cyflwynwyd y ddogfennaeth i'r Cyngor llawn. Mae yna un neu ddau o gywiriadau i'w wneud. Pawb yn gytûn i'r ddogfennaeth gael ei anfon allan i gontractwyr ar ôl gwneud y cywiriadau.
13.	Gohebiaeth:	a. Rhian Wyn Williams - Uned Drafnidiaeth - Uwchraddio llochesi bws Garndolbenmaen. Cwestiynwyd pam fod angen llochesi bws newydd pan nad oes prin wasanaeth bws drwy'r pentref.
14.	Gohebiaeth Ychwanegol:	<p>a. Parc Cenedlaethol Eryri - Prosiect Coed Ywen. Trafodwyd y prosiect a mynegwyd nad oes diddordeb yn y prosiect.</p> <p>b. Cyfarfod Pwyllgor Unllais Ardal Dwyfor - soniwyd bod yna</p>

		<p>Reolau Cyllidol newydd ar y ffordd. Dylent fod yn barod mewn ychydig wythnosau. Os nad ydynt yn barod erbyn y cyfarfod blynyddol yna mae posib eu derbyn blwyddyn nesaf.</p> <p>c. Unllais Cymru - Arolwg Costau Byw - Cwblhawyd yn ystod y cyfarfod.</p>														
15.	Cynllunio:	<p>Rhestrau: 1/1, 8/1, 15/1, 22/1</p> <p>Ceisiadau Cynllunio:</p> <p>C24/0022/36/DT - Bron Haul, Penmorfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SD. Dymchwel lolfa haul, toiled, ystafell twb, ystafell fwyler a storfa goed a chodi estyniad unllawr newydd blaen a mân addasiadau i'r tŷ. Dim gwrthwynebiad.</p>														
16.	Materion Ariannol:	<p>Ceisiadau am arian:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dawns i Bawb • Cymdeithas Amaethyddol Sioe Frenhinol Cymru Sir Caernarfon • Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri <p>Monitro'r gyllideb : Dim Gorwariant</p> <p>Biliau i'w talu</p> <table style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 80%;">Cyflog Clerc</td> <td style="text-align: right;">= £306.49</td> </tr> <tr> <td>Ffôn</td> <td style="text-align: right;">= £ 15.00</td> </tr> <tr> <td>Cyfrifiadur</td> <td style="text-align: right;">= £ 20.00</td> </tr> <tr> <td>HMRC</td> <td style="text-align: right;">= £76.62</td> </tr> <tr> <td>Veolia</td> <td style="text-align: right;">= £28.16</td> </tr> <tr> <td>Madog Gardencare</td> <td style="text-align: right;">= £110.00</td> </tr> <tr> <td>Yr Wylan</td> <td style="text-align: right;">= £40.00</td> </tr> </table> <p>Derbyniadau: Dim</p> <p>Balansau Cyfrifon Banc:</p> <p>Cyfredol: £36,629.98</p> <p>Cadw: £652.77</p>	Cyflog Clerc	= £306.49	Ffôn	= £ 15.00	Cyfrifiadur	= £ 20.00	HMRC	= £76.62	Veolia	= £28.16	Madog Gardencare	= £110.00	Yr Wylan	= £40.00
Cyflog Clerc	= £306.49															
Ffôn	= £ 15.00															
Cyfrifiadur	= £ 20.00															
HMRC	= £76.62															
Veolia	= £28.16															
Madog Gardencare	= £110.00															
Yr Wylan	= £40.00															
17.	Gohebiaeth i'r wefan / wasg	<ul style="list-style-type: none"> - Sefyllfa Bws Garndolbenmaen a Phenmorfa - Coed Ywen - Rhoddion Ariannol - Penodi Archwilydd Mewnol 														

